## CYPE(5)-28-20 - Papur i'w nodi 4

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

---

At|To: Pob Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd GIG Cymru

Dyddiad | Date: 10 Tachwedd 2020

Pwnc | Subject: **COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc**

Annwyl Brif Weithredwyr,

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn gwneud gwaith craffu ar y camau sy'n cael eu cymryd i reoli effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc.

Mae iechyd meddwl a llesiant ein plant a'n pobl ifanc yn flaenoriaeth allweddol i ni. Ers dechrau'r argyfwng iechyd cyhoeddus, rydym wedi clywed amrywiaeth eang o bryderon sy'n awgrymu ei bod yn bosibl bod canlyniadau anfwriadol y cyfyngiadau oherwydd epidemig COVID-19 yn cael mwy o effaith ar blant a phobl ifanc na'r haint ei hun. Yn ein hadroddiad interim ar effaith y feirws ar blant a phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, nodir ein bod o'r farn bod cymryd camau i gefnogi iechyd meddwl a lles ein plant yn bwysicach nawr nag erioed.

Rydym yn ymwybodol o rai o'r camau mae gwasanaeth iechyd Cymru'n eu cymryd i helpu i fodloni anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig, megis sicrhau bod darpariaeth ar gael ar-lein a dros y ffôn.

Fodd bynnag, ysgrifennaf i ofyn am sicrwydd ynghylch y camau y mae eich bwrdd iechyd yn eu cymryd i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau yn ystod y cyfnod anodd hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau bod ar eich gwefannau wybodaeth briodol, glir a hawdd ei chyrraedd, i blant, pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr am y llwybrau tuag at help a chymorth gyda'u hiechyd meddwl, a gwybodaeth ar gyfer teuluoedd am sut i hunanatgyfeirio lle bo angen. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu'r lincs perthnasol fel tystiolaeth o hyn.

O ystyried pwysigrwydd y wybodaeth hon, a'n gwaith parhaus yn y maes hwn, byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb unigol gan bob bwrdd iechyd erbyn **canol dydd, ddydd Mercher 18 Tachwedd 2020.**

Yn gywir,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565



**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.